Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Deddfau, Rheoliadau a Dylanwad y Diwydiant

Y cyd-destun polisi a sut mae buddiannau masnachol yn llywio ymddygiad.



# Yn y casgliad o sleidiau hwn, byddwn yn archwilio:

- Deddfau'r DU sy'n rheoli gwerthu, marchnata a defnyddio cynhyrchion tybaco a fepio er mwyn lleihau niwed.
- Cyfyngiadau oedran gyda'r nod o amddiffyn pobl ifanc ac oedi'r defnydd a'r caethiwed i nicotin.
- Tactegau marchnata sy'n targedu pobl ifanc, gan wneud addysg a rheoleiddio yn hanfodol.
- Ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd a throsolwg moesegol sy'n helpu i gydbwyso buddiannau masnachol â llesiant cymunedol.

# Y Deddfau, y Rheoliadau a Dylanwad y Diwydiant

Nid dewis personol yn unig yw defnyddio tybaco a nicotin - mae **deddfau, polisi cyhoeddus a marchnata** yn dylanwadu'n gryf arno.

Yn y DU, mae rheoliadau yno i gyfyngu ar niwed, lleihau nifer y bobl sy'n eu defnyddio, ac amddiffyn pobl ifanc.

Mae deall y rheolau hyn yn helpu dysgwyr i weld sut mae camau gweithredu'r llywodraeth, arferion y diwydiant, a chwestiynau moesegol yn rhyngweithio i lywio ymddygiad a chanlyniadau iechyd.



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Deddfau Cymru a'r DU ar Werthu, Hysbysebu a Defnyddio Tybaco a Chynhyrchion Nicotin Eraill

Mae gan Gymru a'r DU ehangach rai o'r rheolaethau mwyaf llym yn y byd ar dybaco a chynhyrchion nicotin eraill.

- **Cyfyngiadau gwerthu:** Ni ellir gwerthu cynhyrchion tybaco a fepio i unrhyw un o dan 18 oed, a rhaid i fanwerthwyr wirio dogfennau adnabod. Gall siopau sy'n torri'r gyfraith wynebu dirwyon neu gael eu herlyn.
- **Gwahardd hysbysebu:** Mae hysbysebu, noddi a hyrwyddo tybaco wedi'u gwahardd ar y teledu, y radio, mewn print ac ar-lein, ac mae lleoli cynnyrch yn y cyfryngau wedi'i wahardd.
- **Deddfau pecynnu:** Mae pecynnu plaen gyda rhybuddion iechyd mawr yn lleihau apêl cynnyrch, yn enwedig i bobl ifanc.
- **Cyfyngiadau o ran defnydd:** Mae ysmygu wedi'i wahardd mewn mannau cyhoeddus caeëdig, gweithleoedd, a rhai mannau awyr agored yng Nghymru, gan gynnwys tiroedd ysgolion, meysydd chwarae a safleoedd ysbytai.
- **Rheoliadau fepio:** Yn y DU, mae cynhyrchion fepio’n cael eu rheoleiddio o dan y Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig a Chyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco yr UE, sy'n gosod terfynau ar gryfder nicotin, sy’n ei gwneud yn ofynnol i arddangos rhybuddion diogelwch, ac sy’n atal marchnata sydd wedi'i anelu at blant. (Gweler pecyn cymorth fepio)

Nod y cyfreithiau hyn yw amddiffyn pobl nad ydynt yn ysmygu, atal pobl ifanc rhag ysmygu’n ifanc, a chefnogi nodau iechyd y cyhoedd ledled Cymru a’r DU.

# Cyfyngiadau Oedran a Pham Maent i'w Cael

Yn y DU, mae'n anghyfreithlon gwerthu tybaco neu gynhyrchion fepio i unrhyw un o dan 18 oed. Mae hefyd yn anghyfreithlon i oedolyn brynu tybaco neu gynhyrchion fepio ar ran rhywun sydd o dan 18 oed.

- Nod cyfyngiadau oedran yw atal dod i gysylltiad yn ifanc â nicotin, sy'n gaethiwus iawn a all newid datblygiad ymennydd pobl ifanc.
- Rhaid i siopau wirio dogfennau adnabod a gallant wynebu dirwyon neu gael eu herlyn am dorri'r gyfraith.
- Mae ymchwil yn dangos bod oedi'r defnydd cyntaf yn lleihau'r risg o gaethiwed hirdymor yn sylweddol, a dyna pam mae ymgyrchoedd gorfodi ac ymwybyddiaeth yn hynod bwysig.



Yng Nghymru, mae'r cyfyngiadau hyn yn cael eu hategu drwy **raglenni addysg ysgolion ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd**, gan dynnu sylw at ganlyniadau cyfreithiol ac iechyd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Deddf Tybaco a Fêps y DU (2026)

## 'Dod â'r broblem i stop'

Deddfwriaeth nodedig newydd (ledled y DU) i greu 'Cenhedlaeth Ddi-fwg':

- Yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i werthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar ôl 01 Ionawr 2009 (yn weithredol o 01 Ionawr 2027).
- Mae hyn yn codi'r oedran gwerthu cyfreithiol o flwyddyn i flwyddyn, gan ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol.

Polisi penodol i Lywodraeth Cymru:

- Ymestyn yr ystod o fannau cyhoeddus di-fwg gyda'r posibilrwydd o'i hehangu i gynnwys mannau cyhoeddus di-fêps.
- Creu cyfundrefn trwyddedu manwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin – trwyddedau manwerthwyr a thrwyddedau cynhyrchion

Hefyd cyflwyno cyfyngiadau ar gynhyrchion fepio (e.e. blasau), pecynnu a marchnata.



# Y Diwydiant Tybaco – Yr Hyn y Dylech Chi Ei Wybod

Mae gan gwmnïau tybaco hanes hir o gamarwain y cyhoedd ynghylch peryglon ysmygu er mwyn amddiffyn eu helw.

- Maent yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd marchnata, lobïo ac achosion cyfreithiol i ohirio neu wanhau deddfau iechyd ledled y byd.
- Yn aml, caiff pobl ifanc a chymunedau difreintiedig eu targedu'n fwriadol, gan fod angen cwsmeriaid newydd ar y diwydiant i gymryd lle'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi neu sy'n mynd yn sâl o ganlyniad i ysmygu.
- Mae cynhyrchion tybaco - gan gynnwys eitemau mwy newydd fel bagiau bach neu dybaco wedi'i gynhesu - wedi'u cynllunio i fod yn gaethiwus, gan gadw pobl yn eu prynu.
- Mae'r diwydiant hefyd yn achosi niwed amgylcheddol sylweddol, o ddatgoedwigo a llygredd yn ystod y broses gynhyrchu i biliynau o fonion sigaréts yn llygru tir a dŵr.

**Mae deall y tactegau hyn yn ein helpu i weld nad yw niwed tybaco yn ymwneud â dewisiadau unigol yn unig - mae hefyd wedi'i lywio gan ddylanwad pwerus y diwydiant.**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Llywodraeth, Iechyd y Cyhoedd a Moeseg

Mae llywodraethau, sefydliadau iechyd ac ysgolion yn chwarae rhan allweddol wrth leihau niwed ac amddiffyn cymunedau.

- Mae ymgyrchoedd fel **Stoptober** a **Diwrnod Dim Ysmygu**, marchnata ar gyfer **gwasanaeth Helpa Fi i Stopio'r GIG** ac eiriolaeth gan **ASH Cymru** yn cefnogi rhoi'r gorau iddi ac yn codi ymwybyddiaeth o risgiau tybaco a nicotin.

- Mae pryderon moesegol yn codi oherwydd bod y diwydiant tybaco yn elwa o gynhyrchion sy'n achosi niwed difrifol, tra bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar drin clefydau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig ag ysmygu.

- Felly mae rheoleiddio cryf, addysg a chymorth cymunedol yn hanfodol i flaenoriaethu iechyd y cyhoedd dros elw a sicrhau bod pobl ifanc a grwpiau agored i niwed yn cael eu diogelu.

# Crynodeb

Mae defnydd tybaco a fepio yng Nghymru a'r DU yn cael ei lywio gan gyfreithiau, rheoliadau a buddiannau masnachol. Mae rheolau llym yn rheoli gwerthu, hysbysebu, pecynnu, a ble y gellir defnyddio cynhyrchion, tra bod cyfyngiadau oedran yn amddiffyn pobl ifanc rhag dod i gysylltiad â nicotin yn ifanc.

Bydd y ddeddfwriaeth Tybaco a Fêps newydd yn creu'r 'Genhedlaeth Ddi-fwg' gyntaf drwy gynyddu oedran gwerthu'n raddol a dod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben dros amser.

Mae marchnata gan y diwydiant tybaco yn parhau i dargedu pobl ifanc, gan wneud addysg, ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd yn hanfodol.

Nod camau gweithredu'r llywodraeth a throsolwg moesegol yw blaenoriaethu iechyd y cyhoedd dros elw, lleihau niwed a chefnogi dyfodol iachach a di-fwg i bawb.



# Cyfeiriadau

Cymerodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y set sleidiau hon gyfeiriadau o'r canlynol:


https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru
Tobacco and vapes: evidence to support legislation - GOV.UK
Tobacco Advertising and Promotion in the UK – ASH
https://www.llyw.cymru/bil-tybaco-feps-2024-creu-cenhedlaeth-ddi-fwg-mynd-ir-afael-fepio-ymhlith-pobl-ifanc
Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu a Chynlluniau Cyflawni Cymru ar Reoli Tybaco
Tobacco Industry Targeting Young People - Tobacco Tactics